

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn 67 Bro Emrys, Talybont ar nos Iau 11 Gorffennaf, 2019 am 1900

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

Y Cynghorydd Megan Tomos.

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Y Cynghorydd Jên Morris

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.

Diolchwyd i'r Cyng. Myfanwy Jones am gael cynnal y cyfarfod yn ei chartref ar fry rybudd.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Wyn Bowen Harris.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2019.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Diffibriliwr – adroddwyd bod pwyllgor y Capel yn fodlon gyda gosod yr offer ar y wal tu ôl i'r Capel, yn Bro Emrys. Felly penderfynwyd bydd y Clerc yn archebu'r diffibriliwr. Dim ymateb gan BT hyd yn hyn ynglŷn a mabwysiadu'r ciosg yn Llanllechid.

Crymlyn, Aber - problem gyda lori fawr wedi dod lawr y ffordd ac wedi achosi difrod i'r bwthyn ac wedi bod yn sownd yno dros nos. Y Clerc i holi unwaith eto am yr arwyddion 'sat nav'. Cafwyd ymateb bod ddylai'r arwyddion fod i fyny yn yr 2-3 wythnos nesaf.

Airfields of Britain Conservation Trust - y plac coffa wedi ei osod. Y Cyng. Megan Tomos wedi cysylltu gyda Ysgol Llanllechid ynglŷn a gwneud gwaith paratoi gyda'r ysgolion cyn cael ymweliad, ond dim ymateb hyd yn hyn.

Allt Ty'n Hendre – twll yn y wal, ar yr ochr dde ar y ffordd i lawr. Angen hysbysu Stad Penrhyn. Dim ymateb hyd yn hyn.

Ffordd wrth Wern Bach – twll wedi ymddangos yn y lôn unwaith eto. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi hefyd.

Giât mochyn – adroddwyd bod angen adnewyddu'r giataiau ar lwybrau yn Llan. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am rai newydd. Wedi cael ymateb nad oes bwriad adnewyddu'r giataiau os nad oes anifeiliaid i'w rhwystro. Y Cyng. Dafydd Jones am gysylltu gyda'r Swyddog.

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd wedi bod i wneud archwiliad ar y safle, ond ni darwyd ar draws unrhyw ddiffyg amlwg i'r draen. Bydd angen rhagor o archwiliad i'r draen hwn er mwyn dod o hyd i'r linell gywir.

Llifogydd Tan Lôn – trigolion yn hynod siomedig yn y diffyg cyfathrebu gan Gyngor Gwynedd. Llifogydd oherwydd ffosydd yn y caeau cyfagos ddim digon tyfn a bod cerrig mawr ynddynt. Adroddwyd bod cerrig a mwd dal i fod wrth y gyffordd ac yn gorchuddio'r draeni. Y Cyng. Geraint Hughes am anfon lluniau o rhain at y Clerc, i'w anfon ymlaen at Gyngor Gwynedd. Dim ymateb wedi dod gan y Cyngor hyd yn hyn.

Cae chwarae Tal y bont – gwaith wedi ei wneud ar y safle, ond y Cyngor yn bryderus am ddyfnder y ffos (ddim digon) a hefyd bod ffos arall i'r ffynnon yn y cae heb gael ei agor o gwbl. Y Cyng. Alun Thomas am fynd ar y safle i edrych.

Draeni ar Lon y Bryn – 4 sinc wedi codi ac yn rhedeg yn chwithig. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Mynydd i Parc Main – defaid yn mynd drwodd i'r mynydd gan nad oes rhwystr yno. Y Clerc i hysbysu Stad Penrhyn. Dim ymateb hyd yn hyn.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

J Johnson-torri gwair Talybont	£150.00
J Johnson-torri gwair cae chwarae	£100.00
ROSPA- archwiliad diogelwch blynyddol	£82.20
Cyfieithu Cymunedol	£125.78

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – adroddiad diogelwch ar gyfer y cae chwarae. Y Cyng. Alun Thomas am fynd i edrych ar yr offer ac adrodd yn ôl.

Cyflwynwyd – e-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn a Nosweithiau'r Parc gyda Chynghorau Cymuned a Thref, nos Lun 30 Medi ym Mhlas y Brenin, Capel Curig. Y Cyng. Alun Thomas, Kevin Williams a Dafydd Jones am fynyachu.

7. Y Mynydd

Eitem Eithriedig - Penderfynwyd eithrio'r wasg a'r cyhoedd ar gyfer yr eitem hon, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinwyd yn y Ddeddf) yn cael ei ddatgelu.

8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Dim i'w adrodd.

9. Penderfyniadau Cynllunio:

Dim penderfyniad i'w adrodd.

Ceisiadau Cynllunio:

NP3/21/9D

8 Ciltwillan, Gerlan, Bethesda

Dymchwel yr ychwanegiad ochr presennol a codi estyniad unllawr newydd, dymchwel y ffenestri dormer tô fflat presennol ar flaen a cefn yr eiddo a gosod dormer newydd yn y cefn.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

C19/0556/21/LL

Fferm Talybont Uchaf, Tal y Bont, Bangor

Newid defnydd adeilad amaethyddol i weithdy mecanig trin peiriannau cychod.

Penderfyniad: Gwrthwynebu – e-bost wedi ei anfon gyda nifer o bryderon.

10. Materion Brys

Gwrychoedd ar Lôn Goed – wedi cael eu torri yn wael, ar hyd y ffordd. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Llwybrau – adroddwyd bod y llwybrau canlynol wedi gor-dyfu- y llwybr o'r Eglwys i lawr, ac hefyd llwybr Bryn Owen.

Ynni Cymunedol – y Cyng. Geraint Hughes yn awyddus cael sesiwn ar y pwnc yn y Festri, efallai ym mis Medi.

Lôn y Bryn – peipen wedi blocio. Y Cyng. Kevin Williams am fynd i edrych.

Lôn Bronydd – gwaith wedi ei wneud ar y ffordd i lenwi'r tyllau. Wedi cael ei wneud yn wael, y 'tarmac' heb gael ei wneud yn wastad.